



# Prosiect y Dylluan Wen Gogledd Ddwyrain Cymru Newyddlen *Rhif 4 – Gorffennaf 2013*

## Canlyniadau Magu'r Dylluan Wen ar gyfer 2009-2012

Yn y newyddlen hon, dangoswn yr hyn a ganfuwyd ym mhob safle nythu a fonitryd yn ystod 2009 a 2012. Yn y blwch ar frig y newyddlen dangosir y cod neu'r codau ar gyfer eich safle(oedd) nythu chi. Byddem ni'n hoffi pe byddem yn dal i allu archwilio pob safle bob blwyddyn ond bu hyn yn anodd heb gymorth ychwanegol.

Bu'r prosiect yn gwneud cynnydd da hyd at 2008 gyda nifer y tylluanod gwynion a oedd yn magu yn ein blychau neu mewn safleoedd nythu eraill (yn bennaf, tyllau mewn coed a welwyd yn ystod gwaith maes y prosiect, neu drwy wybodaeth gan dirfeddianwyr). Mae nifer yr adar sydd wedi'u modrwyo hefyd wedi cynyddu.

Yna cafwyd cyfres o ddigwyddiadau tywydd nad ydynt wedi bod o gymorth i'r dylluan wen yng ngogledd-ddwyrain Cymru ac mae'r effeithiau niweidiol i'w gweld yng nghanlyniadau'r prosiect.

I ddechrau cawsom yr eira yn Chwefror 2009 pan gafwyd hyd at 60 cm o eira ar yr ucheldir am oddeutu pythefnos. Roedd hyn yn ddigon i achosi i'r tylluanod adael y blychau yn yr ucheldir, neu'n fwy tebygol, i achosi marwolaethau'r tylluanod a fu'n defnyddio'r blychau hyn. Cafwyd rhagor o eira yn Ionawr a Thachwedd 2010 cyn i ni gael 2011 eithaf tyner er ei bod yn ymddangos nad oedd yn ddigonol i sicrhau unrhyw adferiad sylweddol. Yna cafwyd blwyddyn wlyb iawn yn 2012 pan gafwyd glaw aruthrol hyd yn oed yn ystod yr

haf. Byddai glaw trwm dros nos wedi rhwystro'r dylluan wen rhag hela'n llwyddiannus. Byddai sŵn y glaw wedi

rhwystro'r tylluanod rhag clywed symudiadau eu hysglyfaeth ar y ddaear. Yn olaf, cafwyd y storm eira aruthrol ym Mawrth 2013. Cafwyd cymaint o eira fel nid yn unig na allai'r tylluanod gael bwyd ond fe gollodd ffermwyr ddefaid ac ŵyn dan flanced ddofn o eira!



Ar ddiwedd 2012, dyma nifer y safleoedd oedd ar gael i gael eu monitro gan y prosiect:

Awdurdod Unedol	Blychau	Safleoedd naturiol
Conwy	40	6
Sir Ddinbych	31	15
Sir y Fflint	22	4
Wrecsam	67	31
CYFANSYMIAU	160	56

Yn anffodus, am amrywiol resymau, nid yw pob safle wedi cael ei fonitro ym mhob blwyddyn. Prinder amser fu'r prif reswm am hyn. Er hynny, o'r safleoedd a gafodd eu monitro mae gennym y canlyniadau canlynol:

Blwyddyn	Nifer y safleoedd actif	Nifer y wyau a ddodwyd (lle)	Nifer a ehedodd y nyth
2009	23	80	45
2010	24	74	63
2011	19	71	37
2012	22	52	35

Mae nifer y safleoedd nythu actif wedi aros bron yr un fath dros y blynyddoedd hyn, ond y rheswm am hynny yw oherwydd, bob blwyddyn, y canfuwyd safleoedd nythu newydd a bod rhai nythod actif blaenorol wedi cael eu gadael.

Pe na fyddem wedi cael yr holl eira a'r glaw mae'n bosib y byddai nifer y safleoedd actif wedi dyblu erbyn 2012. Mae hyn yn awgrymu y collwyd o leiaf deugain o dylluanod oed magu.

Ar gyfer y safleoedd nythu actif hyn, dyma nifer y tylluanod a fodrwywyd gan John Lawton Roberts ac Ian Spence:

Blwyddyn	Oedolion	Yn nythu
2005	3	19
2006		7
2007	4	44
2008	9	38
2009	7	36
2010	11	55
2011	4	38
2012	3	24

Ac ystyried yr eira a orchuddiai'r ddaear ar ddechrau 2009 a 2010, cyfansymiau modrwyo 2010 oedd ein ffigurau gorau erioed. Fodd bynnag, ers hynny rydym wedi gweld effeithiau'r tywydd yn bennaf ond hefyd gwelwyd effaith lefelau gweithgaredd is gan John. Gyda niferoedd a ehedodd y nyth ac a fodrwywyd yn 2012 mor isel, arhoswn yn anesmwyth i ganfod cyn lleied o adar a geir yn nhymor magu 2013.

Rydym ni bron â defnyddio'r holl arian a gawsom gan Sw Gaer i wneud blychau nythu a gobeithiwn gwblhau'r blychau olaf ar ddiwedd 2013. Ar ôl hynny ni ragwelwn y byddwn yn gwneud rhagor yn y dyfodol agos. Mae arnom angen cymorth dibynadwy, ychwanegol i fonitro'r blychau nythu. Ar gyfer hyn, mae angen i'r bobl fod wedi'u hyfforddi ac yna rhaid

gallu ymddiried digon ynddynt i ddarparu iddynt drwyddedau Atodlen 1 neu fod yn asiantau ar ran John neu Ian.

Mewn cyfarfod ar ddechrau 2013, trosglwyddwyd rôl Cydlynedd Prosiect y Dylluan Wen oddi wrthyf fi i Lizzy Webster. Dymunaf bob llwyddiant iddi yn cynnal a chyfnerthu'r prosiect dros y blynyddoedd nesaf. Byddaf yn ymdrechu i barhau i wneud y gwaith maes yr wyf wedi bod yn ei wneud ers dechrau'r prosiect.

*Ian M Spence*

## Cynnydd y Prosiect ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam er 2008

Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, gwelwyd y rhan fwyaf o'n cynlluniau ar gyfer y prosiect yn Wrecsam yn dwyn ffrwyth. Mae ein rhwydwaith o flychau i'r dylluan wen yn awr yn cwmpasu llawer o'r Fwrdeistref Sirol. Flwyddyn ar ôl blwyddyn, gyda chymorth aelodau'r gymuned wledig, dysgwn am safleoedd nythu mwy 'naturiol' mewn tyllau mewn coed, ac yn raddol mae cyfradd y tylluanod sy'n defnyddio ein blychau yn gwella.

Mae cyfanswm y blychau nythu ar gyfer tylluanod gwynion ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam yn awr yn 61 a chanfuwyd wyth o safleoedd nythu pellach mewn tyllau mewn coed. Gosodwyd pedwar blwch coed newydd ym Maelor a thri ger Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam, dwy ardal na chawsent sylw digonol gan y prosiect yn flaenorol.



Aeth ein blwch cyntaf yn Nyffryn Ceiriog i fyny yn 2011 a hwn yw ein hunig flwch yn yr ardal o hyd. Yn galonogol, bu i nifer y nythod actif sy'n hysbys i ni godi o 11 yn 2009 i 16 yn 2012.

O'r 18 blwch a osodwyd er 2008, pedwar yn unig fu mewn adeiladau. Mae ein profiad cynharach, a phrofiad prosiectau tebyg ond mwy i'r dylluan wen yn Swydd Gaer a Swydd Amwythig, yn dangos mai ychydig o dylluanod gwynion ar y tir isel sydd yn awr yn magu mewn ysguboriau neu adeiladau eraill. Dau yn unig o'r blychau dan do a ddefnyddir ac mae'r rhain mewn safleoedd lle bu'r tylluanod eisoes yn magu ar siliau, ond bod yn well ganddynt ddiogelwch blwch.

Hyfryd yw gweld bod y defnydd ar ein blychau awyr agored wedi codi o ddim ond un yn 2009 i chwech yn 2011. Mewn un achos, yn ardal Borrás, roedd y tylluanod wedi magu mewn coeden onnen fregus a oedd yn hongian dros ffordd brysur, lle cawsai'r cywion tylluan eu lladd gan draffig. Fel arbrawf, rhesom flwch ar goeden 400m i ffwrdd, yn ddigon pell o'r ffordd a dwy flynedd yn ddiweddarach roedd y tylluanod wedi symud i mewn, gan adael safle peryglus yr onnen.

Hyd yma, yn Wrecsam ni ailadroddwyd y flwyddyn ardderchog a gafwyd yn ôl 2007 am fagu tylluanod gwynion. Oherwydd mis Mawrth cynnes, sych yn 2012 dechreuodd y tylluanod fagu'n gynnar ac adroddodd ein cydweithwyr sy'n rhedeg Prosiectau Swydd Gaer a Swydd Amwythig am niferoedd addawol iawn o dylluanod ifanc yn eu blychau. Er hynny, bu farw llawer o'r rhai ifanc cyn ehedeg y nyth, mae'n debygol oherwydd yr haf gwlyb eithriadol. Yn Wrecsam, bu i lai o rai ifanc adael y nyth nag yn 2011 ac, mewn cyferbyniad â Swydd Gaer a Swydd Amwythig, ni chafwyd dim cynnydd yn nifer y parau magu. Gan fod rhannau tir isel y tair sir hyn yn debyg iawn a gan nad yw tylluanod yn parchu ffiniau sirol, mae'n anodd deall y gwahaniaeth hwn.

Er 2010, rydym wedi newid pwyslais ein gweithgareddau gaeaf. Rydym ni'n awr yn adeiladu llai o flychau ac yn treulio mwy o amser yn chwilio am nythod tylluanod gwynion 'coll'. Ein nod yw dod o hyd i'r holl barau nythu yn Wrecsam, i'r dwyrain a'r gogledd o Ddyffryn Ceiriog. Yr hyn sydd o gymorth i ni yw, mewn ardaloedd gyda'n fras yr un faint o lygod y gwair a llygod, mae parau tylluanod gwynion yn gwasgaru eu hunain allan yn eithaf gwastad, gyda phob pâr yn amddiffyn ei ddarn o dir neu ei 'diriogaeth' ei hun. Ar hyn o bryd, yn Wrecsam, mae'n ymddangos mai oddeutu

dwy filltir yw'r pellter cyfartalog rhwng nythod. Mae hyn yn golygu, drwy nodi'r safleoedd nythod hysbys ar fap a chanfod yr ardaloedd 'gwag', y gallwn weithio allan ym mha rannau y mae hi werth chwilio am nythod sydd heb eu canfod.

I gyfyngu ar y chwilio, rydym yn casglu adroddiadau oddi wrth ffermwyr a phobl wledig eraill. Mae'r rhain yn aml yn cynnwys tylluanod a welwyd yng ngolau'r car, neu a welwyd yn hela gan ffermwyr a fu'n cynaeafu gyda'r nos. Nesaf, gyda chaniatâd y tîrffeddiawyr, rydym yn cerdded ar hyd yr hyn all fod yn filltiroedd o wrychoedd (anaml iawn y mae tylluanod gwynion yn nythu yng ngwarchodaeth ddwysach coedwigoedd) gan archwilio pob coeden am dyllau addas ac arwyddion bod tylluan wen yno ar ffurf pelenni, tail a phlu. Weithiau, ond yn anaml, rydym yn lwcus ar unwaith. Y rhan fwyaf o'r amser, mae'r nythod yn bryfoclyd o anodd dod o hyd iddynt.

Mae pum ardal o'r Sir lle gwyddom y mae tylluanod gwynion, oherwydd i ni ganfod adar yn clwydo neu belenni yn ein blychau neu mewn adeiladau, ond nad ydym eto wedi dod o hyd i'w nythod. Ger Llai, i'r gorllewin o Burton, i'r de-orllewin o Holt, ger Drury Lane ac i'r gogledd o Hanmer y mae'r rhain. Mae'n rhaid bod tylluanod gwynion i'w cael ger Brymbo, hefyd, er nad ydym wedi chwilio yno eto. Os gwelwch neu os clywch am dylluanod gwynion mewn unrhyw rai o'r ardaloedd hyn (neu mewn unman arall), rhowch wybod i ni os gwelwch yn dda. Y tylluanod ifanc yw'r cliwiau gorau – maent yn edrych yn 'bendwrwm', yn clwydo'n agos at ei gilydd ac yn siglo'u pennau i fyny ac i lawr fel pypedau.



Mae'n anodd credu bod cywion sy'n edrych fel hyn yn tyfu'n dylluanod gwynion mor brydferth!

Yn 2012 ymunodd Mike Jones o Dudleston Heath â thîm prosiect Wreccsam. Mae gan Mike o leiaf 50 mlynedd o brofiad o ganfod nythod tylluanod gwynion ar y ffin rhwng Cymru a Swydd Amwythig. Mae John Lightfoot, sy'n rhedeg prosiect tylluanod gwynion gydol y sir yn swydd Amwythig, yn dal i ddod o hyd i amser i roi sylw i'r mwsoglau a'r cwmpas i ni.

Rydym yn ddiolchgar dros ben i Graham a Jan Rowlands (Talwrn) ac i Raymond Jones (Abenbury) am ddangos nythod tylluanod gwynion i ni ac am roi awgrymiadau a chysylltiadau i ni gan arwain at ganfod rhagor. Diolch i bobl fel nhw, a'r oddeutu 130 o ffermwyr a thirfeddianwyr eraill sydd wedi ein croesawu ar eu tir - hebddynt hwy ni fyddai'r prosiect yn Wreccsam wedi gallu llwyddo o gwbl.

*John Lawton Roberts ac Emma Broad*

## Lleoliad, Lleoliad, Lleoliad

Ystafell â golygfa? Cegin a lle bwyta mewn un? Ystafell haul? Mae'n bosib nad ydyn nhw mor ffyslyd â ni bobl o safbwynt eu cartref perffaith, ond fel y gwnaeth Rhian Pierce ganfod fel rhan o'i phrosiect ymchwil MSc, rhaid i safleoedd clwydo tylluanod gwynion fod yn ffafriol o hyd.

Gyda chymorth dros 200 o dirfeddianwyr a fu'n ddigon hynaws i ymateb i bamffledi Rhian yn gofyn am wybodaeth am dylluanod gwynion ar eu tir, heddiw neu yn y gorffennol, aeth ymlaen i ganfod beth yn union mae tylluanod gwynion yn chwilio amdano mewn clwyd. Gyda help Ian Spence a John Lawton Roberts, gosododd 60 o flychau nythu i weld pa rai fyddai'n cael eu meddiannu a pha rai fyddai'n aros yn wag. Ar ôl cryn amser, dewisodd naw safle gwag ac 11 safle oedd wedi'u meddiannu i'w hastudio.

Credir yn gyffredinol fod niferoedd y tylluanod gwynion wedi dirywio dros y 100 mlynedd diwethaf oherwydd gaeafau caletach sy'n gwneud hela ysglyfaeth a magu rhai bach yn anodd, oherwydd colli cynefinoedd pori glaswelltir garw, gan ddarparu llai o gynefinoedd i'w hysglyfaethau o famaliaid bach a'r cynnydd yn y defnydd o organogloridau

sy'n cael effaith ar yr adar ysglyfaethus drwy'r gadwyn fwyd.

Casglodd Rhian ddata o amrywiol ffynonellau, ar dopograffeg a'r hinsawdd, math o gynefin a'i gyfansoddiad, a niferoedd y mamaliaid bach, i gymharu rhwng y safleoedd gwag a'r safleoedd oedd wedi'u meddiannu.

Cynhaliodd ymarferiad trapio mamaliaid ar wyth math o gynefinoedd cyffredin, ac yna defnyddiodd y data hwnnw, ochr yn ochr â data am y cynefin i fwrw amcan o nifer y mamaliaid bychan o fewn 1km i bob blwch.

Dengys y tabl isod y canlyniadau o ymarferiad trapio mamaliaid bach Rhian, ochr yn ochr â chanlyniadau o astudiaeth debyg a gynhaliwyd gan Taylor *et al* yn 1992.

Cynefin	Taylor <i>et al</i> , ffigur cyfartalog llygod y gwair a ddalwyd (wedi'i ail-gyfrifo gan Rhian i fwrw cyfrif o'i 4 diwrnod o astudio)	Canlyniadau Rhian o safbwynt mamaliaid bach a ddaliwyd dros 4 diwrnod
Coetir llydanddail lled naturiol	63.5	78
Coetir conifferaidd planedig	71	49
Glaswelltir niwtral wedi'i led wella	13.5	36
Glaswelltir wedi'i wella	51.5	7
Rhedyn	Heb ei arolygu	47
Rhostir asidig sych	Heb ei arolygu	14
Tir âr	1	29
Adeiladau	Heb ei arolygu	4

Canfu Rhian fod gan dylluanod gwynion eu rhestr eu hunain o'r hyn maent yn ei hoffi pan maent yn dewis clwyd.

### Cynefin

1. Nid yw **llawer o amrywiaeth yn y cynefin yn bwysig** i dylluanod gwynion.

2. ...Ond mae'r math o gynefin sydd i'w gael o amgylch y man clwydo yn bwysig. Roedd **coetir a glaswelltir wedi'i led wella** i'w weld llawer iawn gerllaw'r blychau a feddiannwyd, mae'n debyg oherwydd bod y ddau fath o gynefin yn darparu dwysedd da i'r dylluan fel ysglyfaethwr.
3. Mae'n ymddangos nad yw tylluanod gwynion **yn hoff o safleoedd gyda rhostiroedd asidig sych yn bennaf** yn y cynefin o amgylch, mae'n bosib oherwydd nad oes llawer o ysglyfaethau yno.
4. Er bod yno lawer iawn o ysglyfaethau, roedd gan safleoedd gydag **ardaloedd mawr o redyn yn bennaf yn y cynefin fflychau gwag**, sy'n awgrymu na allant hela'n dda yn y llystyfiant rhedyn uchel.
5. **Roedd yn ymddangos bod adeiladau a thraciau yn denu tylluanod gwynion** i'r safleoedd. Mae gan draciau'n aml laswellt garw yn cyd-redeg â nhw, a gallai hyn o bosib esbonio'r dewis, a gellir defnyddio'r adeiladau fel lloches.

#### Amgylchedd

1. Dengys y canlyniadau fod **safleoedd islaw 150m o uchder yn fwy tebygol o gael eu meddiannu.**
2. Dangosodd y tylluanod gwynion **fod yn well ganddynt safleoedd lle mae'r tymheredd isaf cyfartalog blynyddol yn uwch na 3.8°C** ond gorau oll os yw'r tymheredd cyfartalog yn 5.2°C neu drosodd.
3. Dangosent fod yn well ganddynt hefyd **safleoedd lle'r oedd y glawiad blynyddol cyfartalog yn llai na 1209mm.**

Canllawiau'n bendant yn hytrach na rheolau yw'r meini prawf hyn ar gyfer safleoedd tylluanod gwynion.

Hyd yn oed yn y nifer fechan o flychau wnaeth Rhian eu harchwilio, roedd eithriad i'w gael i bob rheol.

Bydd canlyniadau'r astudiaeth hon yn helpu Prosiect y Dylluan Wen Gogledd Ddwyrain Cymru i dargedu ei adnoddau prin yn effeithiol, gan gynnwys gosod blychau tylluanod gwynion mewn ardaloedd lle maent fwyaf tebygol o gael eu defnyddio. Gallwn yn awr ddefnyddio'r wybodaeth a ganfu Rhian a gwneud yn union hynny, darparu'r cartref perffaith i'n tylluanod gwynion.

*Nia Watkin*

## Safbwynt Perchennog Tir

Mae cael tylluan wen yn nythu ar fy nhir yn anrhydedd, ac mae cael blwch nythu yn ddefnyddiol iawn i wybod pa flynyddoedd maen nhw o gwmpas. Pan oeddwn i'n blentyn roedd hi'n hawdd iawn dweud pa pryd oedd y tylluanod o gwmpas. Gyda'r nos, pan fyddwn ni'n gyrru i fyny'r lôn am y tŷ roeddem ni'n gallu gweld tylluanod gwynion yn hela neu'n eistedd ar ganghennau coed. Ond, am sawl blwyddyn bellach nid ydym ni wedi eu gweld - dim ond eu plu yn y blwch nythu; a oedd yn profi eu bod nhw dal yma.

Eleni, yn anffodus, does dim tylluan wen yn nythu yn y blwch. Fodd bynnag, mae'r blwch bellach yn gartref i adar tingochoch - sy'n dal yn llwyddiant yn fy marn i. Er nad ydi'r tylluanod gwynion i'w gweld fel yr oedden nhw ers talwm, bydd y blwch nythu yn aros yn ei le fel bod modd i ni edrych ynddo bob hyn a hyn. Gobeithiaf, rhyw ddiwrnod, y bydd y dylluan wen yn nythu ynddo eto.

*Victoria Hughes - Perchennog Tir gyda blwch tylluan wen*

Wyddoch chi am unrhyw safleoedd nythu 'naturiol' y mae tylluanod gwynion yn eu defnyddio o bosib? Byddem yn falch iawn o glywed gennych: cysylltwch â'ch swyddog bioamrywiaeth lleol.

**I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect, cysylltwch â'ch swyddog bioamrywiaeth lleol:**

**Sir Ddinbych:**

Lizzy Webster

01824 708263

elizabeth.webster@denbighsh

ire.gov.uk

**Sir y Fflint:**

Amy Green

01352 703263

amy\_e\_green@flintshire.gov.uk

**Wrecsam:**

Emma Broad

01978 298762

emma.broad@wrexham.gov.uk



Biodiversity Network  
North East Wales

Rhwydwaith Bioamrywiaeth  
Gogledd Ddwyrain Cymru



ACT FOR WILDLIFE

